Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.6.3 Codi arian - rhoddion

Beth ydy rhodd?

Cyn edrych yn fanwl ar y pwnc hwn, rhaid i ni ddiffinio'n glir beth sy'n syrthio oddi mewn i'r ystyr o roddion elusennol a phwy neu beth a all eu rhoddi. Diffinnir rhoddion fel anrhegion gwirfoddol i gronfa neu achos, fel arfer am resymau elusennol. Gallant gynnwys arian, eiddo a syniadau.

Pwy all roddi?

Gall rhoddion gael eu rhoi gan gymwynaswyr unigol cyfoethog, cwmnïau preifat neu drwy gasgliadau stryd. Bydd gofyn am reolaeth fwy caeth dros roddion mawr, fel arfer dros £1,000, er mai mater i bob elusen unigol yw penderfynu lefel y rheolaeth y teimlent sy'n briodol.

Rhoddion – derbyn ynteu gwrthod

Beth bynnag am unrhyw weithdrefn ddirprwy fewnol yn yr elusen, saif y cyfrifoldeb eithaf o safbwynt derbyn neu wrthod pob rhodd gyda'r ymddiriedolwyr. Nid oes dim statud penodol i arwain ymddiriedolwyr, serch hynny, fe geir egwyddorion cyfreithiol perthnasol y dylid eu bodloni wrth benderfynu derbyn rhoddion ai peidio. Wedi dweud hynny, mae'r gyfraith yn gofyn i ymddiriedolwyr ystyried budd gorau'r elusen wrth benderfynu derbyn neu wrthod rhodd.

Mae'r Comisiwn Elusennau a'r Sefydliad Codi Arian, drwy eu Codau Ymarfer, yn rhoi arweiniad pellach am y mater hwn.

Yn draddodiadol, rhoddion fu asgwrn cefn elusen. Gwneir rhoddion un ai ar gyfer gwaith elusennol cyffredinol a wneir neu ar gyfer apeliadau penodol. Mae'n holl bwysig cofio bod rhoddion a roddir ac arian a godir ar gyfer apêl benodol yn cael eu defnyddio at y diben penodol hwnnw. Mae'r arfer da argymelledig o ran cyfrifo yn mynnu bod cyfrifon blynyddol elusen yn dangos yr incwm a'r gwariant sy'n ymwneud ag apeliadau penodol.

Croesewir rhoddion cyffredinol gan elusennau oherwydd eu bod, o fewn rheswm, yn ddigyfyngiad o ran y modd y defnyddir arian o'r fath. Er bod apeliadau neu ymgyrchoedd am agwedd benodol ar waith elusen yn ffordd dda o ennyn rhoddion. Fwyfwy, mae elusennau yn trefnu apeliadau tymhorol neu frys a allai olygu casglu o ddrws-i-ddrws neu ymgyrchoedd uniongyrchol drwy'r post.

Yn gyffredinol, y canlynol yw'r ffordd fwyaf arferol o sicrhau rhoddion:

Casglu mewn mannau cyhoeddus
Fel arfer rhaid cael caniatâd neu drwydded gan yr awdurdod lleol i godi arian neu werthu nwyddau i elusen yn y stryd neu mewn mannau cyhoeddus.Yn ogystal, ceir darpariaethau statudol o safbwynt y rhwystrau neu'r tagfeydd a achosir i draffig gan ddiwrnod baneri, carnifal, wythnos rag, ayb a'r llefydd lle caniateir i bobl, dan amodau, gasglu arian neu werthu eitemau at ddibenion elusennol neu fel arall. Dylid cysylltu â'r awdurdod perthnasol cyn gwneud unrhyw ymgais i godi arian yn y mannau hyn.

Casgliadau o ddrws i ddrws

Rhaid i'r casgliadau hyn gael trwydded neu eithriad. Rhoddir y trwyddedau gan yr awdurdod lleol priodol. Gall y canlynol roddi eithriadau:

- Yr Ysgrifennydd Gwladol – ar gyfer casgliadau dros ardal eang (e.e. Cymru gyfan neu ran sylweddol ohoni)
- Yr heddlu – ar gyfer casgliad lleol i'w gwblhau mewn cyfnod byr.

Mae'r term casglu yn cynnwys ymweliadau o dŷ i dŷ a hefyd ymweliadau â thafarndai, swyddfeydd a ffatrïoedd i apelio am arian, eiddo eraill (e.e. dillad), neu i werthu pethau ar y sail y bydd rhan o'r elw yn mynd i elusen.

Mae Deddf Elusennau 1992 (Rhan III) yn gwneud darpariaeth i reoliadau newydd gael eu gwneud i reoli casgliadau elusennol cyhoeddus i ddisodli'r ddeddfwriaeth bresennol neilltuol o safbwynt casgliadau cyhoeddus a chasgliadau drws i ddrws.

Deddf Elusennau 2006

Yn dilyn y ddeddfwriaeth flaenorol, mae Deddf Elusennau 2006 yn darparu ar gyfer system newydd i drwyddedu casgliadau elusennol yn gyhoeddus. Mae'n berthnasol i bob math o gasgliadau, gan gynnwys codi arian wyneb-yn-wyneb, a gofyn am ddebydau uniongyrchol.

Mae gan y Comisiwn Elusennau rôl newydd i archwilio a yw elusennau a sefydliadau eraill yn addas ac yn briodol i wneud casgliadau cyhoeddus, a bydd yn gyfrifol am gyflwyno tystysgrifau casgliadau cyhoeddus, sy'n ddilys am bum mlynedd. Serch hynny, mae'n debygol na fydd y fframwaith deddfwriaethol hwn yn gwbl weithredol am nifer o flynyddoedd.

Casgliadau mewn mannau cyhoeddus
Cafodd diffiniadau cyfreithiol eu diwygio fel y bydd casgliadau mewn mannau cyhoeddus yn awr yn cynnwys rhai tiroedd dan berchnogaeth breifat, megis cyrtiau blaen archfarchnadoedd a neuaddau docynnau gorsafoedd trên. Unwaith y bydd gan elusen dystysgrif casgliadau cyhoeddus gall ymgeisio i'r awdurdod lleol am drwydded i gynnal casgliadau ar adegau penodol mewn mannau penodol yn ardal yr awdurdod lleol

hwnnw. Bydd awdurdodau lleol yn sicrhau nad oes gormod o gasgliadau yn cael eu cynnal ar yr un pryd yn yr un lle.

Casgliadau drws-i-ddrws
Bydd elusen sydd â thystysgrif casgliadau cyhoeddus yn gallu cynnal casgliadau drws i ddrws heb ganiatâd gan awdurdod lleol, ond rhaid iddi hysbysu'r awdurdod lleol bod y casgliad yn cael ei gynnal.

Casgliadau lleol, tymor byr
Bydd rhai casgliadau yn eithriedig o'r drefn drwyddedu ac ni fydd gofyn iddynt gael tystysgrif na thrwydded, ond bydd yn rhaid i'r trefnwyr hysbysu'r awdurdod lleol y cynhelir y casgliad; felly ni ddylai hyn effeithio'n anghymesur ar weithgareddau graddfa fechan megis canu carolau.

Rheoleiddio casglu arian

Wrth gasglu, ceisiwch gael system i olrhain nifer y cynwysyddion casglu (tuniau, pwcedi) a ddefnyddir a phwy sy'n gyfrifol am ddefnyddio a gwagio pob un. Yn ddelfrydol dylent fod yn unedau wedi eu rhifo a'u selio a gaiff eu hagor gan ddau neu ragor o bobl. Yna dylai pobl eu cyfrif a chofnodi'r arian a gesglir. Dylid bancio'r holl arian yn rheolaidd – o leiaf bob wythnos.

Os ceir rhodd oddi wrth grŵp neu gwmni hysbys yna dylid anfon llythyr o ddiolch. Mae hwn yn sicrhau'r berthynas rhwng y rhoddwr a'r derbynnydd ac mae hefyd yn cydnabod y derbyniwyd yr arian yn ddiogel.

Dylid bob amser cadw rhoddion mewn man diogel yn adeilad yr elusen yn hytrach nag yn nhai unigolion. Os oes angen, mae'n bosib y bydd yr elusen yn ystyried prynu sêff i gadw'r rhoddion a gafwyd cyn eu bancio. Dylid bod rhestr gyfyngedig o staff a enwyd sydd â mynediad at arian a roddwyd a'r sêff. Yn olaf, i fancio symiau rheolaidd o arian, mae'n bosib y byddai elusennau yn dymuno ystyried cwmni cludo diogel i roi'r arian i mewn.

Yr Awdurdod Rheoleiddio Codi Arian Cyhoeddus yw'r corff hunan-reoleiddio newydd a sefydlwyd yn benodol ar gyfer codi arian 'wyneb-yn-wyneb'. Mae'n cwmpasu casgliadau elusennol cyhoeddus a gynhelir o ddrws i ddrws ac mewn mannau cyhoeddus ac mae'n ymestyn i erfyniadau am ddebyd uniongyrchol.

Apeliadau cyhoeddus

Mae apêl gyhoeddus yn ymdrech ddwys i ddarbwyllo unigolion a sefydliadau i roddi arian i achos da penodol. Maent yn gweithio drwy ennyn cyhoeddusrwydd a chynyddu ymwybyddiaeth o'r angen rydych yn ceisio'i fodloni.
Cynhelir apeliadau fel arfer ar gyfer pethau penodol - to newydd i'r eglwys, darn penodol o gyfarpar neu i gefnogi hosbis leol. Mae apeliadau amhenodol cyffredinol i gynyddu coffrau sefydliadau bach yn llai effeithiol oni bai eich bod yn eithriadol o adnabyddus.

Boed fawr neu fach, yr allwedd i apêl lwyddiannus yw cynllunio da. Peidiwch â gadael dim i siawns. Peidiwch â chychwyn apêl ac yna gobeithio am y gorau. Mae'n bosib y bydd apeliadau yn dod â chi i gysylltiad â'r cyfryngau, enwogion neu Gyllid a Thollau EM (HMRC). Gallai hyn fynnu sgiliau a dulliau sy'n wahanol i'r math o waith a wnaethoch o'r blaen, a gweithgareddau na theimlwch yn gyfforddus gyda nhw. Bydd yn rhaid i chi ddilyn cynllun codi arian a bod yn gallu cyfiawnhau'r angen am eich apêl.
Cyn i chi benderfynu lansio apêl dylech ofyn i chi'ch hun:

- Ydy'r angen yn cyfiawnhau apêl gyhoeddus, ac ydy o fewn eich amcanion elusennol?
- A oes ymrwymiad a chytundeb ymysg y staff a'r gwirfoddolwyr mai apêl yw'r ffordd iawn o weithredu?
- Ydych chi'n meddu ar y sgiliau angenrheidiol yn eich sefydliad neu a oes arnoch angen cael help mwy arbenigol?
- Ydych chi wedi sefydlu gweithdrefnau cyfrifo ar wahân i dderbyn arian yr apêl?
- Ydych chi wedi gweithio allan y gost o gynnal yr apêl ac wedi neilltuo digon o arian i dalu'r costau?
- Oes gennych ddigon o amser i gynnal yr apêl?
- Oes rhywun sydd â'r bri neu'r proffil cyhoeddus sy'n barod i helpu ac os felly am ba gost?

Rhaid i chi fod yn eithriadol o ofalus eich bod yn cynllunio eich apêl i osgoi llu o faglau. Yn enwedig, rhaid i chi eirio apeliadau yn ofalus:

- Ni ellir ystyried apêl i unigolyn yn elusennol, ni all fod yn gofrestredig fel elusen ac mae'n agored i dreth.
- Gallai rhoi taliad i unigolyn o ganlyniad i apêl arwain at eu bod yn colli budd-daliadau'r wladwriaeth.
- Rhaid i'r gweithdrefnau cyfrifo ar gyfer apeliadau fod yn glir ac ar wahân i weddill eich cyfrifon, yn enwedig os ydych yn defnyddio cymorth rhodd.
- Ni chaniateir defnyddio'r arian a godir drwy apêl gyhoeddus at unrhyw ddiben arall heblaw'r hyn a nodir yn yr apêl wreiddiol.
- Mae gweithdrefnau penodol iawn y mae'n rhaid i chi eu dilyn os oes gennych arian apêl sydd heb ei wario, oni nodwch ar y dechrau sut byddwch yn ei ddefnyddio.

Loterïau a rafflau

Diffinnir loteri fel *'dosbarthu gwobrau ar hap lle mae'r bobl sy'n cymryd rhan, neu nifer sylweddol ohonynt, yn gwneud taliad mewn cyfnewid am gael cyfle i ennill gwobr"* (meini prawf Tŷ'r Arglwyddi).

Mae loterïau yn hynod boblogaidd a gallant fod yn ffordd effeithiol o godi arian. Ond mae'r rheoliadau yn ddigon cymhleth fel bod gofyn eu hastudio'n ofalus. Mae'r term 'loteri yn cwmpasu eitemau megis tocynnau loteri, tocynnau raffl a chardiau crafu.

Rheoliadau ar gyfer gwahanol fathau o loterïau

Mae gwahanol reoliadau yn berthnasol yn ddibynnol ar eu maint a lle gwerthir y tocynnau.

Dyma'r gwahaniaethau y mae'n rhaid i fudiadau gwirfoddol fod yn ymwybodol ohonynt:

- Nid oes raid i loterïau bach (h.y. rafflau) fod yn gofrestredig, cyn belled â:
  - bod y tocynnau yn cael eu gwerthu yn yr adeilad yn ystod digwyddiad elusennol, ac fel rhan gysylltiedig ohono (megis ffair, gŵyl, cinio neu ddawns).
  - na warir dros £250 ar y gwobrau (ond nid oes cyfyngiad ar werth eitemau a roddir).
  - na roddir unrhyw wobrau ariannol.
- Gyda loterïau preifat nid oes cyfyngiadau ar y math o wobrau na'u gwerth, ac nid oes yn rhaid iddynt fod yn gofrestredig, ond mae nifer o gyfyngiadau yn berthnasol, gan gynnwys yr adeilad lle cânt eu gwerthu.
- Loterïau (cyhoeddus) cymdeithas – gellir gwerthu tocynnau mewn mannau cyhoeddus, ond rhaid i'r loteri fod wedi'i chofrestru gyda'r Bwrdd Hapchwarae neu eich cyngor sir lleol, ac mae nifer o gyfyngiadau yn weithredol.

Y peth cyntaf i'w archwilio yw a yw cyfansoddiad neu 'offeryn llywodraethu' eich sefydliad yn caniatáu i chi gymryd rhan mewn gamblo. Mae rhai elusennau yn ei wahardd yn ffurfiol, felly gallai bingo a loterïau fod yn amhosib.

Mae loterïau yn debyg iawn i gasgliadau o ran nifer y cwynion maent yn esgor arnynt. Gwnewch yn sicr eich bod chi'n iawn:

- Os yw'r sefydliad yn elusen gofrestredig rhaid nodi hynny ar y tocyn loteri dan y gyfraith elusennau (mae'n dderbyniol eu tros-stampio gydag enw a rhif yr elusen drwy ddefnyddio stamp rwber).
- Mae'n anghyfreithlon i rywun dan 16 oed werthu tocynnau loteri.
- Os ydych yn gwerthu tocynnau loteri yn y stryd, rhaid i chi wneud hynny o giosg neu fwth.
- Os ydy alcohol yn ffurfio rhan o'r wobr rhaid i chi gael y drwydded briodol.
- Holwch y Bwrdd Hapchwarae bob amser cyn cynnal raffl i helpu unigolyn – nid yw codi arian i unigolion yn elusennol, a gallai fod â goblygiadau o ran treth a budd-daliadau.

Codwyr arian proffesiynol

Os bydd ymddiriedolwyr yn penderfynu codi arian drwy gyflogi codwr arian proffesiynol neu drwy ymrwymo i hyrwyddiad gyda chyfranogwr masnachol rhaid iddynt fod yn ymwybodol o ddarpariaethau Deddf Elusennau 1992 (Rhan II) a Rheoliadau'r Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) 1994 (OS 1994/3024).

Caiff y termau codwr arian proffesiynol a chyfranogwr masnachol eu diffinio gan adran 58(1) o Ddeddf Elusennau 1992. Rhoddir esboniad ym mharagraff 3 o'r arweiniad hwn.

Dylid ystyried yr elfennau canlynol wrth gontractio i ddefnyddio gwasanaethau codwr arian proffesiynol a / neu gyfranogwr masnachol.

- A oes gan y codwr arian enw da ac a ydyw'n aelod o Sefydliad Codi Arian Cymru?
- A nodir cyfnod o amser i'ch galluogi i derfynu'r contract – dylai un a thri mis fod yn ddigonol?
- Sicrhewch na fydd y dulliau y mae'r codwr arian yn bwriadu eu defnyddio yn debygol o fod yn annymunol i'r cyhoedd nac i gefnogwyr y sefydliad.
- Ydy eich nodau masnach, a'ch hawliau eiddo deallusol eraill yn cael eu gwarchod gan y cytundeb?
- A oes rhai o'r blychau casglu a gaiff y codwr arian yn eiddo i'r sefydliad? Pa reolaeth sydd gennych dros leoliad y blychau, y drefn wagio a beth sy'n digwydd i'r blychau ar ôl i'r cytundeb ddod i ben?
- A oes arnoch eisiau diogelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol am eich sefydliad y gallai'r codwr arian fod wedi cael gafael arni?
- A ddylid pennu tâl sefydlog yn y cytundeb er mwyn talu i'r codwr arian ynteu a ddylid ei gyfrifo'n rhannol neu'n llwyr fel canran o'r arian a godir?

Ceir dalenni gwybodaeth ar wahân sy'n delio â digwyddiadau codi arian a chymynroddion. Ceir hefyd ddalen wybodaeth sy'n delio â rhoddi treth-effeithiol.

Mae arweiniad pellach am faterion statudol a rheoliadol o safbwynt codi arian i'w gael gan y sefydliadau canlynol:

Public Fundraising Regulatory Authority
Unit 11, Europoint, 5-11 Lavington Street
Llundain, SE1 0NZ
Ffôn: 020 7401 8452
Ffacs: 020 7928 2925
info@pfra.org.uk
www.pfra.org.uk

Fundraising Standards Board,
Hampton House, 20 Albert Embankment, Llundain, SE1 7TJ
Ffôn: 0845 402 5442
Ffacs: 0845 402 5443
info@fsboard.org.uk
www.fsboard.org.uk

The Charity Commission
PO Box 1227, Lerpwl L69 3UG
Ffôn: 0845 300 0218
www.charity-commission.gov.uk

Cymru'n Rhoi
Llinell gymorth 0800 2888 329
givingwales@wcva.org.uk

Institute of Fundraising
Gweler: 'Codes of Fundraising Practice'
Park Place, 12 Lawn Lane, Llundain, SW8 1UD
Ffôn: 020 7840 1000
www.institute-of-fundraising.org.uk

Sefydliad Codi Arian Cymru
14-16 Ffordd Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DG
Ffôn: 029 2052 1272
Ffacs: 029 2052 1250
cymru@institute-of-fundraising.org.uk

HM Revenue & Customs - Charities
Gweler: '*Trading and business activities'* (Tax issues)
St Johns House, Merton Road , Merseyside, L69 9BB
Ffôn: 08453 02 02 03
www.hmrc.gov.uk/charities

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sqwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH
Elusen Gofrestredig *218093*

Ffôn: 0800 2888 329 help@wcva.org.uk
Ffacs: 029 2043 1701 www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:01/07/2011

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk